Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **6 Rhagfyr 2018** |
| **Amser:** | **08:30 – 10:30** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro, Vicki Evans (PGC)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Stuart Davies, Swyddog Staff, HDP (SD)<br>Donna Price, Swyddog Cymorth Busnes, SCHTh (DP) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 20/11/2018** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Diweddariad** |
| **PB 2360** | **JB i sicrhau bod cynrychiolwyr o'r Clinig Stryd Iechyd Meddwl, Goleudy, yr Uned Seiberdroseddu ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn rhan o ymweliad yr Ysgrifennydd Cabinet ar 10 Rhagfyr.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2361** | **Y PG i roi dyddiadau cyfarfodydd lleol troseddau gwledig i SCHTh er mwyn i'r Panel Heddlu a Throseddu fynd iddynt.** | **Yn parhau** |
| **PB 2362** | **JB i roi dyddiad ar gyfer y Fforwm Heddlu ym mis Ionawr a gwahodd arweinwyr URS i fod yn bresennol.** | **Yn parhau** |
| **PB 2363** | **Tîm Ymgysylltu SCHTh i ymgysylltu â Paul Callard, y Ditectif Brif Arolygydd Anthony Evans a Shane Williams ar ôl y Digwyddiad Diogelu ar 19 Tachwedd gyda golwg ar gynnal digwyddiadau tebyg yng Nghaerfyrddin, Aberystwyth a Phowys.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2364** | **SO i anfon e-bost at y Tîm Rheoli Gwybodaeth i bennu pa waith maen nhw'n ei wneud er mwyn lleihau nifer y datgeliadau llafar gan swyddogion. E-bost i'w anfon gydag atodiadau wedi'u hamlygu sy'n dangos achosion o dorri rheoliadau diogelu data.** | **Yn parhau** |
| **PB 2365** | **Cyfarfod i'w drefnu gyda Mark Bleasdale neu Roger** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Webb mewn perthynas â'r Tŷ Heddlu yng Nghydweli er mwyn pennu a chytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer costau yn y dyfodol ar gyfer cyfleustodau a chynnal a chadw, a'u heithriadau o'r heddlu. Derbyniwyd cadarnhad drwy e-bost gan Ffederasiwn HDP yn cadarnhau mai'r unig gymorth y byddant ei angen gan yr heddlu yng Nghydweli fydd cymorth TG.** | |
| **PB 2366** | **Anfon copi o'r fframwaith ar gyfer y Cynllun ar gyfer Gadael yr UE at Louise Harries, ac yna Louise i roi diweddariad ynghylch gadael yr UE a'r paratoadau ar gyfer y Bwrdd Plismona ar 18 Rhagfyr, a chyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Chwefror 2019.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2367** | **Cyhoeddi Tuag At 2025. Mae'r CHTh wedi gofyn am ymgynghoriad mewn perthynas â hyn a chyhoeddiadau yn y dyfodol. Ar gyfer hwn, mae'r CHTh wedi gofyn am gynnwys cyfeiriad at "Rôl y Comisiynydd", yn arbennig agweddau o waith Comisiynwyr sy'n darparu atebolrwydd ar gyfer yr heddlu. Hefyd, dylid rhoi ystyriaeth i erthygl sy'n ymwneud â theledu cylch cyfyng, dolen i wefan SCHTh, a gwybodaeth mewn perthynas â chostau cyfalaf yn y dyfodol.** | **PS, PSA, CY**<br><br>**Yn parhau** |
| **PB 2368** | **Yr heddlu i archwilio i'r dyfarniad tendr TGCh ac ystyried y tendr hwnnw yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona ar 6 Rhagfyr.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2369** | **Datganiad CHTh i fynd allan yn y 24/48 awr nesaf mewn perthynas ag ymgynghori cyhoeddus ar y praesept; bydd SCHTh yn trefnu hyn.** | **SCHTh**<br>**Yn parhau** |

| **CRYNODEB O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD 06/12/2018** | | |
|---|---|---|
| | | |
| **PB T2 81** | **Mae'r CHTh yn cytuno i Gytundeb Tanysgrifiad Microsoft Enterprise.** | **CHTh** |
| **PB T2 82** | **Mae'r CHTh yn cytuno i ddyfarnu Cytundeb Dyfeisiau Symudol.** | **CHTh** |
| **PB T2 83** | **Mae'r CHTh yn cymeradwyo'r cytundeb Gwasanaethau Dadansoddol Fforensig.** | **CHTh** |

**2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol**

Cytunwyd y byddai unrhyw ddiwygiadau ar gyfer cofnodion y cyfarfod diwethaf yn cael eu cyflwyno i SCHTh erbyn diwedd y dydd (6/12/18).

**3. Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Rhannodd y PG ddiweddariadau gweithredol a sefydliadol yn ysgrifenedig cyn y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth CHTh.

## 4. Diweddariad CHTh

Rhannodd y CHTh ddiweddariad ysgrifenedig cyn y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth y PG.

## 5. Pwnc Misol

### Cydweithio – Paul Morris (PM)

Rhoddodd PM ddiweddariad ynglŷn â'r gweithgarwch cydweithio presennol. Nodwyd nad oedd y CHTh yn cael ei gynrychioli ar Fwrdd Cydweithio Cymru Gyfan.

**Cam Gweithredu: Y CHTh i adolygu ei gynrychiolaeth ar Fwrdd Cydweithio Cymru Gyfan.**

## 6. Eitemau Sefydlog

a. **AD**

Dywedodd Steve Cadenne fod y pecyn diswyddo (cam gweithredu PB 2358) dal yn cael ei ddatblygu gan Tracey Hawthorne, sydd wrthi'n ymgymryd â throsolwg mapio a fyddai'n cael ei gyflwyno yng Nghyfarfod Prif Gwnstabliaid Cymru Gyfan ym mis Ionawr.

**Cam Gweithredu: Bydd Tracey Hawthorne yn mynd i gyfarfod o'r Bwrdd Plismona cyn diwedd Mawrth 2019 er mwyn diweddaru aelodau ar waith cyfredol sy'n gysylltiedig â HDP.**

Rhoddodd Steve Cadenne ddata sefydliad i Aelodau ar gostau yn y gorffennol, costau presennol a chostau rhagfynegol ar gyfer y dyfodol i swyddogion a staff. Gofynnod BP am i nodyn gael ei roi ar y data sy'n cadarnhau pa swyddi sy'n cael eu hariannu'n allanol a/neu eu hariannu'n rhannol.

**Cam Gweithredu: SC i ddarparu ffigurau sefydliad diweddar sy'n cadarnhau swyddi sy'n cael eu hariannu'n allanol neu'n rhannol.**

Eglurodd SC y broses recriwtio ar gyfer swyddogion newydd hefyd. Gofynnwyd i SC gadarnhau'r rhesymwaith ar gyfer y broses er mwyn i VE ysgrifennu at y Ffederasiwn Heddlu mewn perthynas â'r mater.

**Cam Gweithredu: SC i anfon pwyntiau cryno ar y rhesymwaith tu ôl i'r broses o recriwtio swyddogion newydd at VE er mwyn galluogi'r Ffederasiwn Heddlu i gael ei ddiweddaru ar y mater.**

Ceisiodd SC eglurder gan y CHTh ynghylch math ac amlder gwybodaeth Adnoddau Dynol sydd angen.

**Cam Gweithredu: SCHTh i gadarnhau math ac amlder gwybodaeth AD sydd angen ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd Plismona wrth Steve Cadenne.**

Roedd diweddariad SC yn cynnwys cynllun hyfforddi wedi ei gostio ar gyfer 2019/20, sy'n dod i gyfanswm o £427,000, gyda hyfforddiant arbenigol Plismona Gweithredol a'r Adran Ymchwilio i Droseddau'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r gwariant. Holodd BP sut oedd y cynllun yn cymharu â chyllideb 2018/19. Cadarnhaodd SC mai £414,000 oedd cyllideb 2018/19.

Nododd CM fod y cynllun ond yn cynnwys hyfforddiant allanol a bod angen darn o waith sylweddol ar gyfer sefydlu costau hyfforddiant mewnol.

**Cam Gweithredu: SC i gadarnhau dyddiad addas â SCHTh ar gyfer cyflwyno'r cynllun hyfforddi mewnol wedi'i gostio mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona.**

## 7. Materion i'w Trafod

### a. Cytundeb Gwasanaethau Dadansoddol Fforensig

Cymeradwywyd cytundeb mewn egwyddor ar gyfer cynnal trafodaethau prisio mewn perthynas â Gwasanaethau Dadansoddol Fforensig mewn Cyfarfod Prif Swyddogion. Oherwydd gwerth y cytundeb, gofynnwyd am gymeradwyaeth CHTh. Cafwyd trafodaeth ynghylch datblygiadau cenedlaethol mewn perthynas â gwasanaethau dadansoddol fforensig, lle y cytunwyd y byddai SCHTh yn gofyn am ddiweddariad gan Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

**Cam Gweithredu: SCHTh i gysylltu â Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i ofyn am ddiweddariad ynghylch gwasanaethau dadansoddol fforensig.**

### b. Adroddiad Thematig Plismona ac Iechyd Meddwl AHGTAEM

Rhannodd y CHTh wybodaeth ar yr adroddiad a gyhoeddwyd gan AHGTAEM, gan ofyn am ymateb y PG i'r argymhellion sy'n berthnasol ar gyfer HDP.

### c. Adroddiad Archwilio Unplygrwydd Data Trosedd AHGTAEM ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys

Darparodd y CHTh wybodaeth ysgrifenedig â chwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad arolygu diweddar, gan ofyn i'r PG ddarparu ymateb ysgrifenedig erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona.

**Cam Gweithredu: Y PG i roi ymateb ysgrifenedig i'r CHTh mewn perthynas â'r argymhellion o fewn adroddiadau Unplygrwydd Data Trosedd ac Iechyd Meddwl AHGTAEM erbyn 18 Rhagfyr 2018.**

### ch. Cytundeb Tanysgrifiad Microsoft Enterprise

Ceisiwyd cymeradwyaeth CHTh ar gyfer prynu Tanysgrifiadau Microsoft Enterprise.

**Penderfyniad: Cytunodd CHTh i roi'r cytundeb ar gyfer darpariaeth trwyddedau Microsoft Enterprise i Insight am £1,729,750.**

**d. Cytundeb Dyfeisiau Symudol**

Ceisiwyd cymeradwyaeth CHTh i wobrwyo cytundeb ar gyfer diweddaru dyfeisiau symudol swyddogion rheng flaen.

**Penderfyniad: Cytunodd CHTh y dylid rhoi'r cytundeb ar gyfer Dyfeisiau Symudol i EE am £541,836.**

## 8. Unrhyw Fusnes Arall

Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 06/12/2018 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB2370** | **Y CHTh i adolygu ei gynrychiolaeth ar Fwrdd Cydweithio Cymru Gyfan.** | **CHTh** |
| **PB2371** | **Bydd Tracey Hawthorne yn mynd i gyfarfod o'r Bwrdd Plismona cyn diwedd Mawrth 2019 er mwyn diweddaru aelodau ar waith cyfredol sy'n gysylltiedig â HDP.** | **Tracey Hawthorne** |
| **PB2372** | **SC i ddarparu ffigurau sefydliad diweddar sy'n cadarnhau swyddi sy'n cael eu hariannu'n allanol neu'n rhannol** | **Steve Cadenne** |
| **PB2373** | **SC i anfon pwyntiau cryno ar y rhesymwaith tu ôl i'r broses o recriwtio swyddogion newydd at VE er mwyn galluogi'r Ffederasiwn Heddlu i gael ei ddiweddaru ar y mater.** | **Steve Cadenne** |
| **PB2374** | **SCHTh i gadarnhau math ac amlder gwybodaeth AD sydd angen ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd Plismona wrth Steve Cadenne.** | **SCHTh** |
| **PB 2375** | **SC i gadarnhau dyddiad addas â SCHTh ar gyfer cyflwyno'r cynllun hyfforddi mewnol wedi'i gostio mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona.** | **Steve Cadenne** |
| **PB 2376** | **SCHTh i gysylltu â Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i ofyn am ddiweddariad ynghylch gwasanaethau dadansoddol fforensig.** | **SCHTh** |
| **PB 2377** | **Y PG i roi ymateb ysgrifenedig i'r CHTh mewn perthynas â'r argymhellion o fewn adroddiadau Unplygrwydd Data Trosedd ac Iechyd Meddwl AHGTAEM erbyn 18 Rhagfyr 2018.** | **PG** |